**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS

Gweinidog yr Economi

21 Gorffennaf 2023

Annwyl Vaughan

Yn ddiweddar, aeth y Pwyllgor ar ymweliad i Ynys Môn. Fel rhan o'r ymweliad hwn, clywsom am yr effaith y mae cau arhosfan gorffwys Road King i gerbydau nwyddau trwm wedi'i chael ar Ynys Môn. Clywodd yr aelodau am yr effaith y mae cau'r arhosfan wedi'i chael ar yrwyr, yn sgil y gostyngiad sylweddol mewn gwasanaethau iddynt ar yr ynys, ac ar y gymuned gan fod gyrwyr yn gorfod parcio yn unrhyw le y gallant ddod o hyd i le.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor eisoes wedi gwneud argymhellion ynghylch darparu cyfleusterau ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yng Nghymru. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd y Llywodraeth o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor – Cyfeiriad newydd ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg